OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2003 Rhif 1720 (Cy.187)

# DIOGELU'R AMGYLCHEDD, CYMRU

## Rheoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Dyletswydd Gofal) (Diwygio) (Cymru) 2003

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | - - | *9 Gorffennaf 2003* |
| *Yn dod i rym* | - - | *31 Gorffennaf 2003* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 34(5) o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990(**1**) ac sydd yn awr yn arferadwy gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â Chymru(**2**), drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Dyletswydd Gofal) (Diwygio) (Cymru) 2003 a deuant i rym ar 31 Gorffennaf 2003.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru.

### Diwygio rheoliad 4 o Reoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Dyletswydd Gofal) 1991

**2.** Yn rheoliad 4 o Reoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Dyletswydd Gofal) 1991(**3**) —

(a) yn lle'r geiriau "served by a waste regulation authority" rhodder "served by either a waste regulation authority or an authority which is a waste collection authority for the purposes of Part II of the 1990 Act"; a

(b) yn lle'r geiriau "furnish the authority with a copy of it at the authority's office" rhodder "furnish that authority with a copy of it at that authority's office".

(**1**) 1990 p.43; mae yna ddiwygiadau eraill i adran 34 nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, mewn perthynas â Chymru, yn rhinwedd erthygl 2 ac Atodlen 1 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) .

(**3**) O.S. 1991/2839, fel y'i diwygiwyd gan reoliad 23 o O.S. 1996/972 ac, fel y mae'n gymwys i Gymru a Lloegr, gan reoliad 39 ac Atodlen 10, Rhan 2, paragraff 26 o O.S. 2000/1973 a rheoliad 19 o O.S. 2002/1559. Diwygiwyd y Rheoliadau hefyd, mewn perthynas â'r Alban, gan reoliad 36 o O.S.A. 2000/323, ac mewn perthynas â Lloegr, gan reoliad 3 o O.S. 2003/63.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**4**) 9 Gorffennaf 2003

*D. Elis-Thomas*
Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**4**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Dyletswydd Gofal) 1991 (O.S. 1991/2839) ("y prif Reoliadau"), fel y'u diwygiwyd gan O.S. 1996/672 ac fel y'u diwygiwyd ymhellach, fel y maent yn gymwys i Gymru a Lloegr, gan O.S. 2000/1973 ac O.S. 2002/1559, i ganiatáu i awdurdodau casglu gwastraff gyflwyno i unrhyw berson y mae'n ofynnol iddo gadw disgrifiad ysgrifenedig o wastraff a nodyn trosglwyddo o dan y prif Reoliadau hysbysiad sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r person hwnnw roi i'r awdurdod casglu gwastraff yn ei swyddfa, o fewn cyfnod penodedig, y disgrifiadau ysgrifenedig hynny o'r gwastraff a'r nodiadau trosglwyddo a bennir yn yr hysbysiad hwnnw.